

## 10 Cyngor Call ar gyfer Gwneud Cais am Grant y Gist Gymunedol

### Cyn gwneud cais am gyllid y Gist Gymunedol:

1. Holwch eich Awdurdod Lleol am ddyddiadau'r cyfarfodydd a gwnewch yn siŵr eich bod yn cyflwyno eich cais ar amser - isafswm o 14 diwrnod ymlaen llaw i wneud yn siŵr y caiff ei ystyried.
2. Cysylltwch ag adran Datblygu Chwaraeon eich Awdurdod Lleol - gallant eich cefnogi a rhoi cyfarwyddyd ychwanegol ar sut i lenwi'r ffurflen.
3. Casglwch y wybodaeth ganlynol:
  - Faint o aelodau sydd gan eich sefydliad nawr, a faint ydych chi'n gobeithio eu cael ar ôl y prosiect
  - Faint o dimau sydd gan eich sefydliad nawr, a faint ydych chi'n gobeithio eu cael ar ôl y prosiect
  - Faint o sesiynau mae eich sefydliad yn eu cynnal nawr, a faint fydd yn eu cynnal ar ôl y prosiect
  - Faint o hyfforddwyr, swyddogion cymorth cyntaf ac ati sydd gan eich sefydliad nawr, a faint ydych chi'n gobeithio eu cael ar ôl y prosiect.
4. Meddyliwch am beth rydych yn bwriadu ei wneud a pham – er enghraifft:
  - Rydyn ni eisiau sefydlu rhaglen newydd o weithgareddau gan fod ein haelodau wedi mynegi diddordeb mewn bod yn fwy egniol
  - Rydyn ni eisiau sefydlu tîm pêl droed D15 i ferched oherwydd y diddordeb mae'r merched yn yr ysgol uwchradd wedi'i ddangos
5. Gofynnwch y cwestiwn yma i chi eich hun:

*"Sut mae fy nghais i'n cynyddu cyfraddau cymryd rhan neu nifer ac ansawdd yr hyfforddwyr, neu'r ddau?"*
6. Meddyliwch pryd rydych eisiau i'ch prosiect ddechrau, oherwydd nid yw Chwaraeon Cymru'n gallu cyllido prosiectau sydd wedi dechrau cyn i'r panel wneud penderfyniad – mae hyn yn cynnwys mynychu cyrsiau addysgu hyfforddwyr.
7. Cofiwch nad yw Chwaraeon Cymru'n gallu cyllido gwaith cynnal a chadw, newid offer na chostau parhaus. Gall adran Datblygu Chwaraeon eich Awdurdod Lleol roi mwy o wybodaeth am beth na ellir ei gyllido.
8. Casglwch unrhyw ddogfennau ategol sy'n cefnogi eich cais yn eich barn chi. Mae hyn yn cynnwys tystiolaeth bod gan eich sefydliad gyfrif dilys (mewn Banc, Cymdeithas Adeiladu neu Undeb Credyd) yn ei enw.
9. Meddyliwch beth mae'r prosiect yn ceisio'i gyflawni a pham mae ei angen - dim ond ar sail y wybodaeth a roddir gennych chi y bydd y panel yn gwneud ei benderfyniad felly rhwch ddigon o wybodaeth yn ôl yr angen. Mae mwyafrif y ceisiadau a wrthodir yn cael eu gwrthod oherwydd diffyg gwybodaeth.

**Ar ôl cyflwyno eich cais:**

10. Cofiwch gadw llygad ar sut mae eich prosiect yn datblygu wrth i chi fynd oherwydd bydd rhaid i chi lenwi ffurflen Adroddiad Cwblhau Prosiect yn manylu ar y llwyddiannau neu fel arall. Bydd rhaid cyflwyno hon cyn gwneud cais newydd.